

Gwerslyfrau Cyngor Ysgolion Sul Cymru

CYFRES GOLAU AR Y GAIR

Y Pasg: 'Gorffennwyd'

Deunydd Ysgol Sul
i rai rhwng 3 a 14 oed

Testun: Sarah Morris

Lluniau: Dawn Wilks

Cyhoeddwyd gan
Cyngor Ysgolion Sul Cymru



Cyfres Golau ar y Gair - llyfrau yn y gyfres:

Porthi'r Pum Mil	Iesu'r Meddyg
Gideon - yn ymladd dros Dduw	Dafydd: bugail a brenin
Y Nadolig	Elias: negesydd Duw
Teulu Newydd Ruth	Nadolig: Goleuni'r Byd
Moses - Y Dywysoges a'r Baban	Jona: Proffwyd Anfodlon
Pasg – Iesu'r Brenin	Iesu'n croesawu pawb
Samuel – Duw yn siarad â Samuel	Y Pasg: y daith fawr
Pentecost – Newyddion Da lawn	Jeremeia: proffwyd mewn twll
Daniel – yn ffau'r Llewod	Paul: yn cyfarfod Iesu
Damhegion Iesu - Cyfrinachau'r Deyrnas	Moses: Y Deg Gorchymyn
Dechrau'r byd: Hanes y Creu	Iesu: y Ffrind Gorau
Iesu'n dangos ei allu	Solomon: y brenin doeth
Joseff yn yr Aifft	Ffrindiau Iesu: rhannu'r newyddion da
Y Nadolig: Rhodd Duw	Nadolig: O'r nef y daeth
Iesu: Ffrind mewn angen	Josua: yr arweinydd newydd
Moses: Gadael yr Aifft	Iesu'r athro da
Y Pasg: trwy lygaid Pedr	Y Pasg: "Gorffennwyd"
Abraham: ffrind Duw	Esther: y frenhines ddewr
Ysbryd Duw ar waith: Dechrau'r Eglwys	Pentecost: yr Ysbryd Glân yn dod
Y Beibl: Stori Fawr Duw	Dafydd: bardd a brenin (Salmau)

Y Pasg: 'Gorffennwyd' © Cyhoeddiadau'r Gair 2011

Testun: Sarah Morris
Darluniau gan Dawn Wilks
Cynllun y clawr: Ynyr Roberts
Golygydd Cyffredinol / Cysodi: Aled Davies

ISBN 978 1 85994 xxx
Argraffwyd yng Nghymru.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir copïo y deunydd hwn mewn unrhyw ffordd oni cheir caniatâd y cyhoeddwr, heblaw lle rhoddir caniatâd i atgynhyrchu taflenni gwaith yn ôl y gofyn ar gyfer defnydd yn yr ysgol Sul.

Cyhoeddwyd gan:
Cyhoeddiadau'r Gair, Cyngor Ysgolion Sul Cymru,
Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH

Rhoddir caniatâd a rhyddid i lungopïo deunyddiau gweledol a thudalennau gweithgaredd ar gyfer eu defnyddio mewn dosbarth yn unig. Gofynnwn fod pob person sy'n defnyddio y llyfr ar gyfer dysgu yn prynu ei gopi ei hun. Mae copïo a rhannu heb awdurdod yn waharddedig.

Cyflwyniad i'r gyfres

Pan sefydlwyd Cyngor Ysgolion Sul fel menter gydenwadol ddeugain mlynedd yn ôl, y nod o'r cychwyn cyntaf oedd darparu adnoddau a gwerslyfrau addas i blant, ieuenctid ac oedolion Cymru. Dros y blynyddoedd cyhoeddwyd cyfresi o werslyfrau, megis Cyfres y Gair, Gyda'n Gilydd, ac Ar y Ffordd. Bu i lawer o'r deunydd yma gael ei gyfieithu o'r Saesneg, gan edrych i gyfeiriad Eglwys yr Alban, Scripture Union, NCEC a TnT Ministries. Bu cyfieithu erioed yn ateb delfrydol nac yn hawdd, gan bod cyd-destun yr Ysgol Sul yng Nghymru mor wahanol. Wrth gyflwyno'r gyfres newydd hon i'ch sylw, rydym yn falch o ddweud bod hon yn gyfres gwbl wreiddiol, wedi codi o lawr gwlad, ar gyfer y sefyllfa Gymreig. Mae gan Gyngor Ysgolion Sul banel gwerslyfrau cydenwadol, gydag aelodau profiadol ymysg gweinidogaethu i blant, ac mae'r grŵp hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod y maes llafur a chynnwys y llyfrau. Mae'r gwersi yn cael eu paratoi gan Sarah Morris, a chanddi hithau hefyd blynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda phlant mewn ysgolion Sul a chlybiau plant yng nghylch Llansannan. Hyderwn felly y bydd y gyfres hon yn gymeradwy gan ein hysgolion Sul, ac yn fodd i arfogi athrawon wrth gyflwyno gwersi o Sul i Sul.

Yr hyn a geir yma yw gwerslyfr athro ar stori neu thema arbennig, a bydd llyfr newydd yn cael ei gyhoeddi bob mis. Un llyfr sydd ei angen gan bod y deunydd plant ac ieuenctid yn gynwysiedig fel taflenni ac atodiadau i'w llungopïo. O fewn pob llyfr ceir:

Cynllun gwersi ar gyfer plant meithrin i 5 oed

Ceir yma amrywiaeth o syniadau o dan y penawdau Amser Chwarae, Amser Stori, Amser Creadigol ac Amser Canu a Gweddïo. Yn ychwanegol i hyn, ceir detholiad o daflenni gwaith i'w llungopïo.

Cynllun gwersi ar gyfer plant 6-11 oed

Ceir yma ddewis eang o weithgareddau arbennig i rai rhwng 6-8 oed a 8-11 oed. Nodir amcanion clir ar gyfer pob gwersi, gyda ffyrdd gwahanol o gyflwyno a dysgu'r stori, syniadau crefft, cwis, gemau, drama, gweddïau a deunydd defosiwn. Ceir hefyd dewis o daflenni gwaith ar gyfer y ddau grŵp oed gwahanol.

Cynllun gwersi ar gyfer rhai rhwng 11-14 oed

Ceir yma dri thema yn deillio o'r stori, gydag amrywiaeth o syniadau creadigol a diddorol, a chyfle hefyd i drafod a sgwrsio.

Atodiadau a deunydd ychwanegol

Ceir nifer o atodiadau hefyd, yn cynnig syniadau ychwanegol a deunydd gweledol. Ar y CD sy'n dod gyda'r llyfr, mae yna ddetholiad ychwanegol o daflenni, rhai yn arbennig gyda phwyslais addysgol, ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle mae'r stori yn cael ei datblygu yn yr ysgol leol. Rhestrir yn y llyfr hefyd rhai adnoddau ychwanegol e.e. llyfr stori ar y thema neu ddeunydd gweledol a chrefft. Cofiwch hefyd bod pob un o'r storïau hyn i'w cael ar ffurf fideo, fel rhan o'r gyfres Beibl Fideo.

Gwasanaeth Teuluol

Paratowyd gwasanaeth teuluol hefyd ar gyfer bob uned, a gobeithio bydd hyn o gymorth i ddod â bwrlwm yr ysgol Sul i mewn i fywyd yr eglwys, gan greu cymuned sy'n dysgu ac addoli gyda'i gilydd.

Cofiwch gysylltu os am gymorth neu gyngor gyda'r deunydd. *Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul*



Cyflwyniad i'r athro: Y Pasg

Wrth i mi geisio penderfynu ar destun i'r cyflwyniad yma dwi wedi bod yn hel meddyliau - yn chwilio am atgofion sy'n gysylltiedig â'r Pasg.

Dwi wedi rhannu o'r blaen fy atgofion am ddillad newydd ar gyfer Sul y Pasg, a'r ffrog werdd roedd fy mam wedi gwnïo ar gyfer un flwyddyn fythgofiadwy! Wrth i mi gyrraedd fy ardegau, dwi'n cofio mynd i gapel bach ym Maesycwmer ar ddydd Llun y Pasg i wrando ar weinodog adnabyddus o'r Alban yn pregethu ar 1 Ioan 3 1-3. Cefais fy nharo gan y gwirionedd fy mod wir yn blentyn i Dduw, a'r fraint anhygoel, y gobaith sicr a'r cyfrifoldeb difrifol sydd yng nglum â hyn.

Yn y Coleg, un o'r geiriau Cymraeg cyntaf dysgais oedd y gair 'Trosom.' Roedd un o fy ffrindiau wedi cerfio'r gair 'Trosom' ar ddarn o bren a minnau'n ei holi beth oedd ei ystyr. Esboniodd bod y gair yn cyfleu, ar ffurf crynodeb, holl waith yr Arglwydd Iesu ar y groes dros bechaduriaid, a dwi'n cofio rhyfeddu ac ystyried bod y gair hwnnw'n air sbesial.

Wrth gwrs, mae adeg y Pasg yn dod ag atgofion llawer 'uwch' i bob Cristion, ac eleni dwi wedi bod yn ystyried Iesu, Brenin y nef yn dod i'n byd fel gwas. Dwi'n gallu cydymdeimlo â'r disgyblion wrth iddynt sefyll mewn syndod a dryswch wrth i Iesu glymu tywel o'i amgylch a phlygu i lawr i olchi eu traed - ychydig yn gynt roeddent wedi cerdded gyda'r dyrfa, yn cyfarch Iesu'n frwdfrydig fel y Meseia, y Brenin a addawyd gan Dduw i'w bobl flynyddoedd yng nghynt. Dwi'n cael hi'n anodd credu fod Mab Duw wedi dod i'r byd i achub pechaduriaid, pobl nad oeddent yn ceisio Duw nac yn ei barchu. I ddweud y gwir, mae'n amhosibl i ni amgyffred y gwirionedd yma ond bod yr Ysbryd Glân yn goleuo ein meddwl digon i beri ein bod am gofleidio ac ymddiried yn Iesu fel Gwaredwr ac Arglwydd.

Byddwn yn ystyried prif hanesion wythnos y Pasg gyda'r plant a'r bobl ifanc, yn chwilio am arwyddion fod Iesu'n Frenin ac yn was, a'n gweddi yw y bydd yr Ysbryd Glân yn goleuo eu meddyliau nhw hefyd, fel y byddant yn dod i ymddiried yn Iesu tra yn ifanc.

Diolch i Gwyn Rhydderch am baratoi'r Gwasanaeth Teuluol i'r gyfres hon.

Rhestr Adnoddau

Llyfrau stori

Stori'r Pasg

Rhywun Arbennig Iawn

Llyfr Sticeri Y Pasg Cyntaf

Y Pasg: Beiblau Lliw

- 'Beibl y Plant Lleiaf' (tud. 234-247)
- 'Beibl Newydd y Plant' (tud.199 – 219)
- 'Beibl Bach i Blant' (Rhif 55-58)
- 'Beibl Lliw y Plant' (tud. 256 – 279)
- 'Y Beibl i Blant mewn 365 o storïau'
- 'Y Beibl Graffig'

Ffilmiau

2 CDd o'r gyfres 'Animated Stories from the Bible', (*ar gael o amazon.co.uk*)-'Worthy is the Lamb' a 'He is risen'

Cyfres y Beibl Fideo; Tâp 5: Stori 6 a 7
Gur y Gwyrthiau S4C.

Ar gael gan Cyngor Ysgolion Sul



Amcanion

- ❖ I gyflwyno cynnwrf Sul y Blodau a thaith Iesu i Jerwsalem
- ❖ I gyflwyno tristwch Dydd Gwener y Groglith
- ❖ I gyflwyno gorfoledd Dydd yr Atgyfodiad

AMSER CHWARAE

1. Amser Parti

Paratowch amrywiaeth o fwydydd ‘parti’ i fwynhau gyda’r plant. Cofiwch ddarganfod os oes unrhyw alergeddau bwyd gan y plant. Gosodwch y bwrdd gyda’ch gilydd a rhoi addurniadau syml i fyny cyn eistedd i fwynhau’r bwyd. Trafodwch wrth fwyta, y partion mae’r plant wedi eu mynychu - penblwydd, priodas, Nadolig. Eglurwch ein bod yn cael partion i ddathlu neu i gofio rhyw ddigwyddiad arbennig e.e. y diwrnod cawsant eu geni!

Eglurwch fod Iesu a’i ffrindiau wedi mynd i barti unwaith, i gofio am ddyn pwysig o’r enw Moses.

2. Gêm ‘Yr Asyn’

Bydd angen copi o Atodiad 1 i bawb, wedi ei dorri’n chwe darn, fel y dangosir. Hefyd, dis ac un llun wedi’i liwio ond heb ei dorri, amlenni.

Dangoswch lun yr asyn i’r plant a thrafodwch beth yw enw’r anifail, beth mae’n ei fwyta, pa sun mae’n ei wneud, pwy sydd wedi gweld asyn neu gael taith ar gefn asyn ar lân y môr. Esboniwch eich bod am chwarae gêm i bawb cael creu llun asyn. Mae’r plant yn cymryd tro i daflu’r dis ac i godi darn o’r llun sy’n cyfateb i’r rhif a deflir. Maen nhw’n gosod y darnau at ei gilydd fel jig-so nes bod llun cyflawn ganddynt. Parhewch nes bod pob plentyn wedi gorffen. Esboniwch fod Iesu wedi mynd ar daith ar gefn asyn unwaith hefyd. Caiff pob plentyn gadw’r darnau mewn amlen yn barod i fynd adref.

3. Yn fyw neu yn farw?

Byddwch angen amrywiaeth o eitemau i ddangos i’r plant - rhai yn fyw, e.e. planhigyn, llun aderyn, llun anifail: rhai sydd wedi marw e.e. blodyn sydd wedi gwywo, darn o bren/brigyn, a rhai sydd erioed wedi bod yn fyw e.e. tegan, carreg. Gofynnwch i’r plant eich helpu i ddioli’r eitemau i dri categori. Dangoswch hadau i’r plant gan ofyn a ydynt yn fyw neu’n farw? Esboniwch, er eu bod yn edrych yn farw, mae’n bosib y bydd yr hadau yn tyfu i fod yn blanhigion newydd, hardd. Esboniwch y byddwn yn clywed heddiw am hanes Iesu Grist yn marw. Er bod hon yn stori drist, mae diwedd hapus i’r stori.

4. Helfa wyau

Bydd angen swp o uyau - rhai siocled neu rhai papur - a llyfr sy’n dangos llun cyw yn deor. Neu, mae llun ar gael ar y Cdd.

Byddwch angen digon o uyau i bob plentyn gael o leiaf un uy. Cewch ddefnyddio uyau siocled bach neu siapau papur. Cuddiwch yr uyau cyn i’r plant gyrraedd. Gadewch i’r plant chwilio am yr uyau - un plentyn ar y tro neu bawb gyda’i gilydd. Wrth i’r plant fwyta’r uyau dangoswch lun cywion bach yn deor, a thrafodwch beth sy’n digwydd. Esboniwch wrth y plant bod yr uyau a’r cywion bach yn ein helpu ni i feddwl am fywyd newydd. Heddiw, byddwn yn clywed sut y daeth Iesu Grist yn ôl yn fyw - cafodd Iesu fywyd newydd.



Oed Meithrin – 5

Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

AMSER STORI

1. Hanes Sul y Blodau Luc 19

Bydd angen Beibl Newydd y Plant neu Beibl Bach i Blant, a bag gyda'r eitemau canlynol: asyn (tegan neu lun), deilen, coron (gwnaiff un papur syml y tro).

Gofynnwch i'r plant os ydynt wedi bod am wyliau. Gadewch iddynt rannu eu profiadau cyn esbonio bod pawb yn y wlad ble roedd Iesu'n byw yn cael gwyliau i gofio rhywbeth arbennig a ddigwyddodd amser maith yn ôl, a bod llawer o bobl yn mynd i ddinas Jerwsalem i ddathlu. Eglurwch un tro fod Iesu a'i ffrindiau wedi mynd i ddinas Jerwsalem hefyd.

Darllenwch hanes Iesu'n marchogaeth i Jerwsalem o'r Beibl Plant.

Wedyn, i adolygu'r hanes, gwahoddwch y plant i gymryd un eitem o'r bag a dweud rhywbeth amdano. Gorffennwch drwy atgoffa'r plant bod hwn wedi bod yn ddiwrnod cynhyrfus iawn i Iesu a'i ffrindiau. Cafodd Iesu groeso gan y bobl am eu bod yn deall ei fod yn berson arbennig iawn ac roeddent mor falch i'w weld.

2. Hanes Dydd Gwener y Groglith Luc 22, 23

Yn amlwg mae'n rhaid bod yn sensitif i deimladau'r plant wrth adrodd hanes marwolaeth Iesu, felly, byddwn yn gorffen yr hanes heddiw drwy gyfeirio ymlaen at hanes yr Atgyfodiad.

Bydd angen bynsen 'hot cross.'

Dangoswch lun o Iesu'n marchogaeth i Jerwsalem a'i ddefnyddio i atgoffa'r plant o hanes Sul y blodau, gan orffen trwy son am y croeso gafodd Iesu gan y bobl, yn gweiddi 'Hosanna' a chwifio dail.

Wedyn, adroddwch hanes Iesu'n cael ei arestio a'i groeshoelio yn eich geiriau eich hun, fel a ganlyn:

Ychydig ddiwrnodau wedyn, trefnodd rhyw ddyddion, nad oeddent yn hoffi Iesu, i'r milwyr dod a'i arestio, a'i roi yn y carchar. Daeth y milwyr yn ystod y nos, pan oedd Iesu'n gweddio yn yr ardd gyda'i ffrindiau. Doedd Iesu ddim wedi gwneud dim byd drwg, ond cymerodd y milwyr ef i'r carchar!

Beth oedd ffrindiau Iesu'n yn mynd i wneud? Doedden nhw ddim yn deall pam oedd y milwyr wedi cymryd Iesu ac roedd ofn arnynt. Y diwrnod wedyn, clywodd ffrindiau Iesu ei fod wedi marw. Roedd Iesu wedi cael ei hoelio ar groes o bren gan y milwyr ac wedi marw. Roedd ffrindiau Iesu mor drist. Roedd fel petai'r byd i gyd yn drist hefyd. Er ei bod yng nghanol y prynhawn, peidiodd yr haul i wenu, ac aeth pob man yn dywyll.

Cymerodd ffrindiau Iesu ei gorff o'r groes a'i lapio mewn lliain wen. Aethant â chorff Iesu i ardd arbennig a'i rhoi yn ofalus mewn bedd yn yr ogof. Doedd dim drws i'r ogof, felly dyma nhw'n rhoio carreg fawr o flaen ceg yr ogof. Roedd ffrindiau Iesu'n drist iawn - roedd eu ffrind gorau wedi marw. Byddent yn colli ei gwmmi, roeddent yn meddwl na fyddent byth yn ei weld eto.

Ond roeddent yn anghywir! Mi fydden nhw'n gweld Iesu eto yn fuan. Yn fuan iawn! Roedd Duw'n mynd i wneud rhywbeth rhyfeddol iawn - mewn ychydig ddiwrnodau byddai Duw'n dod â Iesu'n ôl yn fyw!

Dangoswch y fynsen i'r plant, gan holi os ydynt wedi gweld un o'r blaen neu fwyta un. Eglurwch ein bod yn bwyta'r cacennau adeg y Pasg. Ydy'r plant yn gwybod pam? Esboniwch fod y groes ar y fynsen yn ein hatgoffa bod Iesu wedi marw ar groes o bren. Ond, er ein bod yn drist i gofio hyn, rydym yn gwybod hefyd, bod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw, a does dim angen i ni fod yn drist o hyd.

3. Hanes Yr Atgyfodiad Luc 23



Oed Meithrin – 5

Y Pasg: ‘Gorffennwyd’ - Luc 22-24

AMSER CREFFT

1. Creu bag ‘parti’

Bydd angen amlenni maint A5, rhuban, sticeri, creonau, tâp selo neu styffylwr i greu’r bagiau. Hefyd, bydd angen copi ar gerdyn o’r lluniau o Atodiad 2 i bob plentyn, wedi’u lliwio os yn bosibl a’u torri allan. Rhywbeth ‘neis’ i roi yn y bag - fferins, neu siocled neu degan bach.

Rhowch amlen i bob plentyn a’u cynorthwyo i’w addurno gyda’r sticeri a’r creonau. Wrth weithio, trafodwch yr arferiad o dderbyn bag parti. Tâpiwch neu styffyllwch ddarn o ruban yn ‘handlen’ i’r bagiau. Wedyn, rhannwch y lluniau un ar y tro, gan eu defnyddio i atgoffa’r plant o hanes Iesu’n marchogaeth i Jerwsalem a’r Swper Olaf. Caiff y plant roi’r rhain yn y bag. Yn olaf, rhannwch y pethau ‘neis.’

2. Addurno bisgedi/cacennau bach

Bydd angen ‘hot cross bun’, bisgedi plaen ac eisin.

Dangoswch “hot cross bun” i’r plant gan esbonio ein bod yn bwyta’r rhain adeg y Pasg. Sylwch ar y patrwm ac esboniwch fod siâp y groes yn ein hatgoffa fod Iesu wedi marw ar groesbren. Gadewch i’r plant addurno bisgedi plaen gydag eisin gan gopïo’r patrwm. Efallai yr hoffech baratoi cacennau bach iddynt addurno. Mae’n syniad cael dwy fisged/cacen i bob plentyn - un i’w bwyta a’r llall i fynd adref mewn bag bach.

3. Daliwr uy

Bydd angen copi o’r templed o Atodiad 3 i greu daliwr ar gyfer pob plentyn – dylech ei gopïo ar gerdyn trwchus. Hefyd, wyau gwag a phaent addas hy..., styffylwr neu glud

Dechreuwch drwy beintio’r wyau. Anogwch y plant i ddefnyddio sawl lliw ac i greu patrwm. Wedyn, tra mae’r wyau’n sychu, lliwiwch y

lluniau sydd ar y ‘dalwyr’ a’u gludo/styffylu at ei gilydd- cofiwch eu mesur o amgylch yr uy yn gyntaf. Trafodwch wrth weithio pam yr ydym yn derbyn wyau siocled adeg y Pasg - yn arwydd o fywyd newydd. Ar ôl gorffen lliwio, caiff pob plentyn osod yr uy yn ei le.

4. Baner i’r Brenin

Bydd angen darnau o ddefnydd plaen, tua 10cm x 15cm, siâp coron i bob plentyn gyda’r geiriau ‘Iesu yw’r Brenin’, gemau bach neu sticeri neu bapur sgleiniog wedi’i dorri’n siâp gemau, glud, styffylwr, llwyau, cans gardd tenau neu wellt yfed, halen a lliwiau bwyd.

- ❖ Yn gyntaf, dangoswch i’r plant sut i liwio’r halen, trwy gymysgu 3 diferyn o liw a 4 owns/115g o halen. Gwnewch ddigon l’r plant i gyd.
- ❖ Addurnwch y coronau gyda’r halen lliw.
- ❖ Ychwanegwch y gemau.
- ❖ Styffylwch ddarn o ddefnydd ar bob cansen/gwelltyn ac yna gludo’r goron ar ben y defnydd yn ofalus.

Wrth weithio, atgoffwch y plant o’r croeso gafodd Iesu ar y ffordd i Jerwsalem, gyda’r bobl yn chwifio dail a gosod eu cotiau ar lawr. Darllenwch y geiriau sydd ar y goron, ac esbonio ein bod yn gwybod mai Iesu yw’r brenin am ei fod wedi dod yn ôl yn fyw ar ôl marw.

Canwch ‘Pwy yw brenin y jyngl’ ac anogwch y plant i chwifio’r baneri wrth ganu.

Bydd angen ychydig o ‘brops’ i greu bedd a charreg e.e. blancedi dros ddwy gadair a bag ffa mawr.



Oed Meithrin – 5

Y Pasg: ‘Gorffennwyd’ - Luc 22-24

AMSER CREFFT

Gosodwch y ‘props’ yn eu lle wrth esbonio i’r plant eich bod am glywed hanes y Pasg cyntaf. Dechreuwch drwy eu hatgoffa fod ffrindiau lesu mor drist y diwrnod hwnnw am fod lesu wedi marw. Roedd corff lesu wedi cael ei roi yn y bedd a charreg fawr, drom wedi cael ei rholio o’i flaen fel bod neb yn gallu mynd i mewn.

Eglurwch eich bod am esgus mai chi yw ffrindiau lesu- gofynnwch i bawb i edrych yn drist. Mae’n gynnar yn y bore, a rydych ar eich ffordd i’r ardd ble mae bedd lesu. *Cerddwch o amgylch y bedd, gan sylwi bod y ‘garreg’ wedi cael ei symud (bydd angen trefnu i rywun wneud hyn tra rydych yn siarad gyda’r plant).* Beth sydd wedi digwydd? Pwy sydd wedi symud y carreg o’r ffordd. *Anogwch y plant i edrych i mewn i’r bedd gyda chi.* Ydy corff lesu yno? Nac ydy! Dydy corff lesu ddim yno! *Edrychwch o amgylch, gan holi ‘Ble mae lesu?’* Dychmygwch eich bod yn gweld dau olau llachar tu mewn y bedd, a’ch bod yn gallu gweld dau angel yno. *Plygwch i lawr gan guddio eich llygaid.* Mae’r angylion yn siarad. Mae’n nhw’n dweud i beidio a phoeni na bod yn ofnus. Mae’n nhw’n dweud wrthyich bod lesu ddim yno mwyach am ei fod wedi dod yn ôl yn fyw. *Dangoswch gynnwrf a llawenydd.* Mae lesu’n fyw eto! Hwre! *Anogwch y plant i weiddi hwre gyda’i gilydd.*

Mae’n rhaid i ni redeg i ddweud wrth ffrindiau eraill lesu - byddant eisiau clywed y newyddion rhyfeddol hefyd.

Y noson honno, wrth i ffrindiau lesu siarad gyda’i gilydd amser swper, daeth lesu atyn nhw. Nawr, roedden nhw i gyd yn gallu gweld ei fod yn fyw. Doedd neb yn drist mwyach, roedd pawb wedi cynhyrfu wrth ei weld.



Oed Meithrin – 5

Y Pasg: ‘Gorffennwyd’ - Luc 22-24

AMSER CANU A GWEDDÏO

Cân

Cewch hyd i sawl cân ddeniadol sy'n addas i'r
plant lleiaf yn y llyfr Glas, glas blaned

Rhigwm

Edrych i fyny, edrych lawr,
Edrych fan hyn a fan draw,
Mae Mair yn edrych am ei ffrind,
Yn edrych ym mhobman.

Crïo'n uchel, crïo am sbel,
Nes gweld y garddwr clên,
'Wy ti di gweld fy ffrind fan hyn?
Ble mae yr Iesu, d'wed?'

Gwên a bloedd, chwerthin braf,
'Mair, y fi sydd yma.'
Iesu sydd yno! Mae Mair yn dweud,
'Rwy'n gwybod dy fod yn fyw!'

Gweddi

Darllenwch y weddi isod yn araf gan oedi ar ôl
pob llinell fel bod y plant yn cael ymateb gyda'r
geiriau, "Diolch Arglwydd Iesu."
Daeth Iesu i'r byd o'r nef.....
Daeth i sôn am gariad Duw
Daeth i ddangos sut i fyw
Daeth i farw ar y groes
Ac mae eto'n fyw am byth

AMSERLEN

Wythnos 1: Amser Chwarae 1 neu 2; Stori 1; Crefft 1; Cân

Wythnos 2: Amser Chwarae 3; Stori 2; Crefft 2; Rhigwm


Wythnos 3: Amser chwarae 4; Stori 3; Crefft 3 neu 4; Gweddi



Taflen 1 Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

Cafodd Iesu swper arbennig gyda'i ffrindiau.

Roedd eisiau dweud wrthynt ei fod yn mynd i'w gadael cyn bo' hir i fynd yn ôl i'r nef at Dduw, ei Dad.




Does dim llawer o fwyd ar y bwrdd - fedri di dynnu llun bara a ffrwythau a chwpanau i orffen y llun?



Taflen 2 Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24



Dyna sypreis gafodd Mair! Aeth at y bedd yn gynnar yn y bore - ond doedd corff Iesu ddim yno!
Clywodd Mair lais yn galw ei henw - Iesu oedd yno.





Taflen 3 Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

Dyma rai lluniau o hanes y Pasg. Fedri di gysylltu'r lluniau cywir?





6 - 11 oed

Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

Amcanion

I gyflwyno hanes y Pasg drwy gyflwyno -

- ❖ Iesu'r Brenin sy'n gwasanaethu
- ❖ Iesu'r Brenin sy'n dioddef
- ❖ Iesu'r Brenin sy'n fyw



Cân i'r gyfres

'Iesu 'dyn ni'n canu dy glod' - Atodiad 7

Adnod i'r gyfres

'Roedd y Meseia wedi dioddef trwy farw dros bechodau unwaith ac am byth, er mwyn dod â chi at Dduw' (1 Pedr 3:18)

FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

1. Cwis - Pwy sydd yno?

Bydd angen 6 llun o bobl enwog arnoch. Torrwyd y lluniau i dri stribed. Dangoswch un rhan o'r llun i'r grŵp gan ofyn iddynt ddyfalu pwy yw'r person. Dangoswch y darnau eraill o'r llun, un ar y tro, nes eu bod yn adnabod y person. Efallai yr hoffech rannu'r grŵp i dimoedd er mwyn cael cystadleuaeth.

Cafodd y bobl yng nghyfnod Iesu Grist drafferth i'w adnabod ef hefyd. Roedden nhw wedi cael llawer o gliwiau bod Iesu yn un arbennig ac roedd Iesu wedi dweud wrthynt mai ef oedd Mab Duw. Ond, roedd hyd yn oed y disgyblion yn ddryslyd ynglŵn â phwy oedd Iesu, er eu bod wedi treulio llawer o amser gydag Iesu yn gwrando arno ac yn dystion i'w weithredoedd. Yn y stori heddiw, byddwn yn gweld bod rhai pobl wedi deall fod Iesu'n berson arbennig iawn.

2. Golcha dy draed!

Bydd angen pecyn o 'baby wipes' arnoch.

Gofynnwch i'r plant i dynnu eu 'sgidiau a'u sanau, i ddod o hyd i bartner ac i sefyll gyferbyn â'i gilydd fel eu bod yn gallu cyffwrdd â blaenau bysedd traed ei gilydd yn unig gyda'u breichiau wedi'u hystyn.

Rhowch 'baby wipe' i bawb gan esbonio mai nod y gêm yw cyffwrdd traed y partner gyda'r 'wipe' tra'n sicrhau nad yw eu traed eu hunain yn cael eu cyffwrdd. Rhybuddiwch y plant, er mwyn diogelwch, nad yw cicio'n dderbyniol. Os ydych yn brin o le cewch chwarae un gêm ar y tro. Chwaraewch mwy nag un rownd, gyda'r plant yn cystadlu yn erbyn partneriaid gwahanol bob tro. Rhowch wobwr i'r plentyn sydd wedi gwlychu lleiaf.

3. Gêm 'Ar fai'

Bydd angen set o gardiau, digon i bawb gael o leiaf pedwar cerdyn yr un. Ar dreian o'r cardiau ysgrifennwch y geiriau "Ar fai".

Rhannwch y cardiau gan ddweud y cânt edrych ar y cardiau ond iddynt beidio â dweud



FFYRDD I GYFLWYNO'R THEMA

beth sydd arnynt. Mae pawb yn newid cardiau, drwy gynnig eu cardiau i rywun arall ddewis un. Ar ôl cyfnewid cerdyn, cânt edrych arno ac yna cyfnewid cerdyn gyda pherson arall. Y nod yw cyfnewid cardiau yn gyflym ac yn aml. Ar ôl arbrawf byr, gofynnwch pwy sy'n dal y nifer fwyaf o gardiau gyda'r geiriau "Ar fai" arnynt? Chwaraewch y gêm eto, gan esbonio y bydd cosb i'r person sydd yn dal y nifer fwyaf o gardiau "Ar fai" y tro hwn. Ar ôl cyfnod, dewch â'r gêm i ben, a gofynnwch i'r plant i gyfri faint o gardiau "Ar fai" sydd ganddynt. Meddyliwch am 'gosb' i'r plentyn/plant sydd â'r nifer fwyaf o gardiau 'Ar fai', e.e. paratoi diod i bawb, rhedeg o amgylch yr ystafell yn canu hwiangerdd, ysgwyd llaw â phawb arall gan ddweud rhywbeth doniol. Eglurwch y byddwn yn clywed hanes Iesu Grist yn marw heddiw a bod y gêm yn mynd i'n helpu i ddeall pam fu'n rhaid i Iesu farw.

4. Marblis Siocled

Bydd angen pecynnau o "mini eggs" a tâp masgio arnoch. Marciwch gylch ar y llawr â smotyn yn ei ganol gyda'r tâp, a rhannwch yr wyau fel bod gan bob plentyn set o wyau o liwiau gwahanol. Os oes grup mawr gennych, cewch eu rhannu'n grwpiau llai neu chwarae mwy nag un rownd.

Mae'r cystadleuwyr yn cymryd eu tro i rollo wy i'r cylch. Nod y gêm yw bwrw wyau'r lleill allan o'r cylch. Os oes rhywun yn llwyddo, cânt fwyta'r wy. Yr enillydd yw'r person sydd â'r wy sydd agosaf at y canol ar ôl i bob wy gael eu rhoio.

Gofynnwch i'r plant pam ein bod yn rhoi wyau siocled adeg y Pasg? Mae'r wy yn symbol o fywyd newydd ac mae'n ein hatgoffa fod Iesu wedi dod yn ôl o'r bedd yn fyw.

FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI

Byddwn yn cyflwyno'r 3 hanes ar ffurf calendr Adfent, gan roi cyfle i'r plant rannu'r hyn maent yn ei gofio o'r hanesion cyfarwydd cyn eu darllen. Cewch hyd i'r lluniau ar y GDd. Mae'n bosib creu dau galendr - un bach, maint A4 (hefyd ar Atodiad 5) ac un mawr gyda phob llun o'r un maint, sef A4. Bydd angen paratoi'r calendr o flaen llaw a chewch hyd i'r cyfarwyddiadau ar y ddogfen sydd ar y GDd.

1. Hanes Sul y Blodau (Marc 11) a'r Swper Olaf (Ioan 13)

Dangoswch y calendr i'r plant a thrafod y traddodiad o agor calendr tebyg adeg y Nadolig. Gwahoddwch un o'r plant i agor y ffenestr gyntaf a threuliwch amser yn trafod y llun gyda'r plant. Yna, darllenwch yr hanes o Marc 11: 1- 11, neu o Feibl plant addas. Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r plant, gan roi'r esboniad wedi iddynt ateb:

Beth oedd y bobl yn ei weiddi wrth gyfarch Iesu gan chwifio canghennau? *Roedd pobl yng nghyfnod Iesu'n defnyddio'r cyfarchiad 'Hosanna', sy'n golygu 'achub', i groesawu milwyr a'u harweinwyr yn ôl wedi brwydrau llwyddiannus. Mae'n debyg felly bod y bobl yn croesawu Iesu fel una oedd yn dod i'w hachub.*

Pwy oedd Dafydd? *Dafydd oedd y Brenin mwyaf yn hanes pobl Israel. Mae'r bobl yn cyfarch Iesu fel mab i Dafydd - fel brenin. Roedd Duw wedi addo i'w bobl y byddai'n danfon Brenin arbennig iddynt a byddai'r brenin hwn yn eu hachub mewn ffordd ryfeddol. Iesu oedd y brenin hwnnw, a chawn weld sut yr achubodd y bobl. Gwahoddwch un o'r plant i dynnu llun syml ar y ffenestr (coron/ deilen).*

**FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI**

Gwahoddwch un arall o'r plant i agor yr ail ffenestr a thrafodwch y llun sydd i'w weld – llun Iesu'n golchi traed y disgyblion.

Yna, darllenwch yr hanes o Feibl Lliw y Plant neu yn Ioan: 13.

Darllenwch yr wybodaeth sydd ar ochr tudalen 263 gyda'r plant sy'n esbonio arwyddocâd ymddygiad Iesu.

Golchodd Iesu draed ei ddisgyblion i ddangos ei fod yn fodlon bod yn was a'i fod yn dymuno eu bod nhw'n barod i wasanaethu pobl eraill. Felly, er bod Iesu'n frenin roedd yn fodlon helpu pobl eraill fel gwas!

Cawn weld y tro nesaf bod Iesu wedi gwasanaethu ei ffrindiau mewn ffordd ryfeddol iawn.

Gwahoddwch un o'r plant i dynnu llun addas ar yr ail ffenestr (*powlen/traed*).

2. Hanes Gardd Gethsemane (Luc 22) a'r Croeshoeliad (Luc 23)

Bydd angen y Calendr o'r wythnos ddiwethaf, cwpan llawn diod, Beibl Lliw y Plant neu Feiblau arnoch.

Defnyddiwch y Calendr i adolygu'r hanes blaenorol. Gadewch i'r plant agor ffenestr rhif 1a 2 gan ddweud beth a ddigwyddodd a pham y dewiswyd y ddau lun sydd ar y ffenestri.

❖ Gwahoddwch un o'r plant i agor ffenestr rhif 3 - llun Iesu'n gweddïo yng ngardd Gethsemane. Ar ôl trafod y llun, darllenwch yr hanes o Feibl Lliw y Plant (tudalen 266, gan orffen gyda'r frawddeg gyntaf o dudalen 267), neu o Luc 22:39-46. Beth oedd Iesu'n ei ofyn i Dduw? Gosodwch y cwpan o flaen y plant. Roedd Iesu'n gwybod beth fyddai'n digwydd iddo, sef y byddai'n cael ei groeshoelio, fel yr ydym ni'n gallu gweld y cwpan ac yn gwybod beth sydd y tu mewn. Oes rhaid i ni yfed o'r cwpan? Nag oes, mae gennym ddewis, yfed

neu beidio. Mae Iesu'n gofyn i Dduw a oes rhaid iddo gymryd y cwpan, oes rhaid iddo farw - er ei fod yn gwybod yr ateb yn iawn - mae'n rhaid iddo farw oherwydd mai dyna yw ewyllys Duw. Cawn glywed mwy am hyn nes ymlaen.

Gwahoddwch un o'r plant i dynnu llun addas ar y ffenestr (*cwpan/dwylo'n gweddïo*).

❖ Agorwch ffenestr rhif 4 - llun Iesu'n cael ei fradychu gan Jwdas. Ar ôl trafod y llun, darllenwch yr hanes o Feibl Lliw y Plant neu Luc 22: 47-53.

Beth yw ymateb y plant i ymddygiad Jwdas a'r disgyblion eraill? Pam nad oedd Iesu'n ceisio dianc rhag Jwdas a'r milwyr?

Gwahoddwch un o'r plant i dynnu llun addas ar gyfer ffenestr rhif 4 (*cleddyf, darnau o arian*).

❖ Agorwch ffenestr rhif 5 - Iesu gyda Pilat. Ar ôl trafod y llun, darllenwch yr hanes o Luc 22:66- 23:25 neu o Feibl Lliw y Plant, tudalen 272-273. Pwy oedd Pilat? Beth ddywedodd Pilat wrth arweinwyr yr Iddewon a'r bobl? Gwahoddwch un o'r plant i dynnu llun ar y ffenestr (*coron o ddrain, llun Pilat*).

❖ Agorwch ffenestr rhif 6 - llun Iesu ar y groes. Ar ôl trafod y llun darllenwch yr hanes o Luc 23:26-49 neu Feibl Lliw y Plant, tudalen 274-275. Treuliwch amser yn ystyried geiriau Iesu tra ar y groes, Dad, maddau iddynt - *roedd Iesu'n gwybod bod hyn yn rhan o gynllun Duw, roedd hyd yn oed yn gallu maddau i'r bobl oedd yn ei ladd.*

Heddiw fyddi di gyda mi ym Mharadwys - *roedd Iesu'n gwybod ar ôl marw y byddai'n mynd at Dduw ei dad yn y nefoedd. Roedd Iesu'n gallu ei gwneud hi'n bosibl i'r lleidr gael mynd i'r nefoedd hefyd, wrth iddo gredu yn Iesu, mab Duw.*

Fy Nuw, fy Nuw, pam wyt ti wedi fy ngadael i? *Ar y groes roedd Iesu'n cymryd pechod y byd arno ef ei hun. Doedd Duw ddim yn gallu*

**FFYRDD I GYFLWYNO'R STORI**

edrych ar ei fab, Iesu, wrth i Iesu gael ei gosbi am ein pechodau. O Dad, i dy ddwylo di rydw i'n cyflwyno fy ysbryd. Wrth farw, mae Iesu'n gwybod ei fod wedi gwneud popeth oedd ei angen i ddelio â phechod, yn ôl cynllun a dymuniad Duw.

Gwahoddwch un o'r plant i dynnu llun ar y ffenestr (croes).

❖ Gorffennwch trwy wahodd y plant i weddio'n dawel, yn diolch i Iesu am farw ar y groes er mwyn i ni gael maddeuant am bechod.

3. Hanes Yr Atgyfodiad (Luc 24)

Bydd angen y Calendr, Beibl Lliw y Plant a Beiblau arnoch.

Defnyddiwch y Calendr i adolygu'r hanes blaenorol. Gadewch i'r plant agor ffenestr rhif 1 - 6 a dweud beth a ddigwyddodd a pham dewis y ddau lun sydd ar y ffenestri.

❖ Gwahoddwch un o'r plant i agor ffenestr rhif 7 - llun Iesu wrth y bedd gyda Mair. Ar ôl trafod y llun, darllenwch yr hanes o Luc 24:1-12 neu o Feibl Lliw y Plant, tudalen 276, 277. Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r plant: Pwy aeth at y bedd yn gyntaf? Beth ddywedodd yr angylion wrth Mair? Pwy ddaeth i siarad â Mair? Beth ddywedodd Iesu wrthi?

Gwahoddwch un o'r plant i dynnu llun ar y ffenestr (carreg, bedd, Mair).

❖ Agorwch rif 8 - llun Iesu gyda'r disgyblion. Ar ôl trafod y llun darllenwch yr hanes o Luc 24:36-49. Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r plant: Pam fod y disgyblion yn ofnus? Sut oedden nhw'n gwybod nad ysbryd oedd yno? Gwahoddwch blentyn i dynnu llun ar y ffenestr (*dwyllo gydag ôl hoelen, Iesu*).

❖ Agorwch ffenestr rhif 9 - adnodau 46-48 o Luc 24. Dywedodd Iesu fod ei farwolaeth a'i

atgyfodiad wedi cael eu hysgrifennu amdano, flynyddoedd lawer yn ôl, cyn iddynt ddigwydd. Mae'r disgyblion wedi gweld Iesu'n marw ac yn atgyfodi gyda'u llygaid eu hunain, nawr mae angen iddynt ddweud wrth eraill. Beth sydd angen ei ddweud wrth bobl? Adnod 47 - bod angen i bobl gyffesu eu pechodau a derbyn maddeuant gan Dduw: Adnod 48 - fel tystion i fywyd a marwolaeth Iesu, mae angen sôn wrth bobl am bopeth wedi gweld a chlywed.

Gwahoddwch blentyn i dynnu llun addas ar y ffenestr olaf (*y byd, wyneb hapus*).

Cymhwyso: Dysgu adnod

'Roedd y Meseia wedi dioddef trwy farw dros bechodau unwaith ac am byth, er mwyn dod â chi at Dduw' (1 Pedr 3:18)

Bydd angen copïau o Atodiad 4 ar bapur lliw gwahanol. Torrwch siapiau'r wyau o flaen llaw.

Rhannwch y plant yn ddimoedd, gyda phob tîm yn gyfrifol am gasglu darnau'r adnod a'u gosod at ei gilydd. Cewch guddio'r darnau o amgylch yr ystafell, neu eu gosod gyferbyn â'r timoedd. Mae un aelod o'r tîm yn chwilio/casglu darn o'r adnod ar y tro. Ar ôl dod o hyd i bob darn, dylai'r plant geisio dysgu'r adnod. Rhewch amser iddynt wneud hynny, cyn gwrando ar bob tîm a rhoi gwobr i'r tîm sydd wedi dysgu orau.

Eglurwch fod yr adnod yma'n esbonio pam fod yn rhaid i Iesu farw ar y groes - er mwyn dod â ni at Dduw. Dydyn ni ddim yn gallu dod at Dduw a chael Iesu'n ffrind nes bod pechod yn cael ei faddau. Trwy farw ar y groes mae Iesu wedi gwneud hi'n bosibl i ni gael maddeuant, ac felly cael dod i adnabod Duw yn iawn.



SYNIADAU CREFFT

1. Calendr Pasg

Bydd angen copi o Atodiad 5 ar bob plentyn, pinnau ffelt, darnau o gerdyn lliw maint A4, gyda ffenestri wedi'u torri'n barod, styffylwr, tâp selo a rhuban.

- ❖ Paratowch y clawr o flaen llaw, trwy dorri'r ffenestri. Cewch wneud hyn drwy osod un copi o Atodiad 5 ar ben y clawr a mynd o amgylch y lluniau gyda beiro gan bwysu'n galed i greu tolc ysgafn ar waelod y cerdyn. Bydd modd dilyn y llinellau i dorri pob ffenestr gyda siswrn neu gyllell crefft.
- ❖ Rhowch gopi o Atodiad 5 i bawb ei liwio.
- ❖ Ar ôl lliwio, caiff y plant styffylu'r clawr ar y pedair ochr.
- ❖ Rhowch ddarn o ruban i bawb i'w dapio ar gefn y 'Calendr' er mwyn eu hongian.
- ❖ Treuliwch amser yn agor y ffenestri a gwrando ar y plant yn adrodd yr hanesion.

2. Cerdyn Pasg

Bydd angen wyau wedi'u chwythu a'u sychu, neu blisg wyau, paent, glud, pinnau ffelt, cardiau plaen ac amlenni. Bydd angen tipyn o wyau ar gyfer y crefftwaith, felly mae'n syniad ceisio hel plisg gan ffrindiau a theulu o flaen llaw!

- ❖ Rhowch blisg/wy i bawb a'u gwahodd i'w peintio.
- ❖ Tra bod y plisg/wyau'n sychu rhowch gerdyn i bawb iddynt dynnu amlinelliad croes ar y blaen.
- ❖ Cynorthwywch y plant i feddwl am gyfarchiad addas neu adnod i'w ysgrifennu tu mewn.
- ❖ Yna, bydd angen torri'r plisg i ddarnau bach a'u gludo ar y groes.
- ❖ Caiff y plant addurno'r cefndir gyda'r pinnau ffelt.

3. Gardd Pasg

Bydd angen caead bocsg esgidiau i bawb a digonedd o'r canlynol: pridd neu dywod, brigau, blodau, planhigion, cerrig o bob maint, mwsogl, tiwbiau cardfwrdd.

- ❖ Rhowch bridd/tywod yn y caead a'i ledaenu.
- ❖ Ychwanegwch blanhigion/blodau/brigau.
- ❖ Rhowch ddarn o'r tiwb cardfwrdd ar y pridd a'i ddefnyddio i greu 'bedd/ogof' drwy ei orchuddio â mwy o bridd a cherrig.
- ❖ Defnyddiwch garreg lefn fel 'drws' i'r bedd.
- ❖ Wrth weithio, trafodwch yr hanesion am Iesu'n marw ac atgyfodi gyda'r plant, gan eu hannog i feddwl sut oedd Iesu'n teimlo a sut deimladau oedd gan y disgyblion drwy'r cyfan.
- ❖ Gorffennwch y sesiwn drwy weddio gyda'ch gilydd, yn diolch i Iesu am farw yn ein lle ac am atgyfodi o'r bedd.

4. Poster Pasg – Newyddion da

Bydd angen papurau newydd a chylchgronau, siswrn, glud.

Gofynnwch i'r plant dorri geiriau neu lythrennau allan i greu geiriau er mwyn ffurfio penawdau o hanesion y Pasg, e.e. Dewch i ddathlu - mae'r Brenin yn dod! Mae Iesu'n fyw! Mae'r bedd yn wag! Hosanna i Fab Dafydd!

Efallai yr hoffai'r plant dynnu lluniau o'r hanesion i gyd-fynd â'r penawdau. Anogwch y plant i ddefnyddio'r posteri i adrodd hanes y Pasg gyda rhywun adref.

**GWEITHGAREDD YCHWANEGOL****Cwis****Ar eich marciau**

Bydd angen papurau lapio siocled gwag (tua 30) gyda rhifau wedi'u gludo ar y gwaelod mewn pentwr ar un ochr yr ystafell fel bod y rhifau o'r golwg. Cewch ddefnyddio rhifau bach ond mae'n hwyl defnyddio rhifau mwy hefyd! Rhannwch y grup yn dimoedd i sefyll ar ochr arall yr ystafell i'r papurau. Rhowch rif i bob aelod - dylai fod un person ymhob tîm â'r un rhif, h.y. bydd person 'rhif un' ymhob tîm, person 'rhif dau' ymhob tîm, person 'rhif tri' ymhob tîm, ayyb. Galwch rif. Dylai'r aelodau o bob tîm sydd â'r rhif hwnnw redeg i nôl un papur. Ar ôl dychwelyd, mae'r tîm yn edrych ar gefn y papur i weld pwy sydd â'r rhif uchaf - y tîm hwnnw fydd yn cael ateb y cwestiwn, a'r sgôr, os byddant yn ateb yn gywir, yw'r rhif ar y papur.

Parhewch i alw rhifau a gofyn cwestiynau nes bod y papurau i gyd wedi eu casglu neu'r cwestiynau wedi eu gofyn. Mae'r timoedd yn cyfri eu marciau a'r tîm sydd â'r sgôr uchaf sydd yn ennill.

Dysgu Adnod

Gweler tudalen xx

Gêm - 'Mewn perygl!'

Rhannwch y plant yn dimoedd. Ras yn erbyn y cloc yw hon - bydd angen i chi amseru pob tîm i weld pa dîm sy'n gorffen cyflymaf. Dywedwch wrth y plant eu bod mewn lle peryglus - gadewch i'r plant awgrymu rhyw sefyllfa. Mae'n rhaid i un aelod o'r tîm gludo gweddill y tîm i fan diogel. Mae'r "Achubwr" yn sefyll ar un ochr yr ystafell - dyma'r man diogel - ac mae gweddill y tîm yn sefyll gyferbyn ag ef/hi, ochr arall yr ystafell. Rhyngddynt, mae darnau o bapur/cerdyn, tua maint A4, fel cerrig camu. Mae'r "Achubwr" yn camu ar y cerrig i

gyrraedd yr ochr arall. Mae'n gafael yn llaw/ arddwrn un aelod a'i h/arwain yn ôl dros y cerrig i'r man diogel (gall yr "Achubwr" gario aelodau'i dîm ar ei gefn os yw hynny'n dderbyniol). Os yw eu traed yn cyffwrdd â'r llawr, rhaid cychwyn y daith eto. Ar ôl cludo'r person cyntaf, dylai'r "achubwr" arwain aelod arall nes bod pawb wedi cyrraedd y man diogel. Yr enillydd yw'r tîm cyflymaf.

Atgoffwch y plant bod Iesu'n cael ei alw'n 'Achubwr' hefyd a thrafodwch ystyr hyn gyda'r plant.

Gweddïau**❖ Bara a Gwin i gofio**

Dangoswch gwpanaid o sudd cyrens duon (*gwin*) a darn o fara i'r grup.

Esboniwch ein bod yn dathlu Swper yr Arglwydd yn y capel i gofio am farwolaeth ac atgyfodiad Iesu. Esboniwch fod yr arwyddion yma'n ein hatgoffa fod Iesu wedi marw drosom a'i fod yn cynnig bywyd newydd i bawb sy'n credu ynddo. Gofynnwch a hoffai rywrai ddiolch i Iesu am farw drosom, neu offrymwch weddi eich hun dros bawb.

❖ Iesu'r Brenin

Defnyddiwch y Calendrau Pasg o'r Adran Grefft (*Atodiad 5*) i sbarduno eich gweddïau. Gofynnwch i'r plant i agor un ffenestr ar y tro, i ystyried y llun, a naill ai gweddïo'n dawel eu hunain, neu wrando arnoch chi'n dweud gweddi syml.

Mae llun un a dau'n ein hatgoffa fod Iesu'r Brenin yn fodlon gwasanaethu eraill.

Mae lluniau 3 – 6 yn ein hatgoffa fod Iesu'r Brenin yn fodlon dioddef dros eraill.

Mae lluniau 7 – 9 yn ein hatgoffa fod Iesu'r Brenin wedi atgyfodi'n fyw a'i fod yn barod i roi maddeuant a bywyd newydd i bawb sy'n gofyn iddo fod yn Frenin yn eu calonnau.

**DRAMA****1. Cyfweiliadau**

Bydd y plant yn ceisio rhoi eu hunain yn esgidiau cymeriad go iawn neu ddychmygol o'r hanes. Ar ôl cyfnod i baratoi byddwch yn ei g/chyfweld. Cewch ddefnyddio'r pwyntiau trafod yn ganllaw i'r cyfweiliad.

Cewch wneud hyn mewn parau neu grwpiau bychain.

Rhowch gymeriad i'r pâr/grup a set o bwyntiau trafod o Atodiad 6. Byddai'n dda cael llyfrau a Beiblau Plant yn barod i ddarllen yr hanes hefyd.

Cymeriadau posibl:

Perchennog yr asyn a ddefnyddiodd Iesu ar Sul y Blodau (Luc 19:28);

Un o'r disgyblion ar ôl y Swper Olaf (Luc 22:7-38);

Un o'r milwyr a aeth i arestio Iesu yng ngardd Gethsemane (Luc 22:47 - 53, 63);

Y forwyn a siaradodd gyda Pedr tu allan i dw'r Arch Offeiriad (Luc 22: 54-62);

Pilat (Luc 22:66 - 23:26);

un o'r merched a ddilynodd Iesu i Galfaria (Luc 23:26 -43);

un o'r milwyr oedd wrth y groes (Luc 23:35 - 49);

Joseff o Arimathea (Luc 23:50-54).

2. Sgetsys

Beth am geisio cyflwyno un o'r sgetshis o lyfr '*Mwy na drama'r Nadolig*' gan Catrin Roberts?

Ceir y 3 sgets ganlynol yn y llyfr: Glanhau'r Deml; Golchi Traed y Disgyblion a Rhwygo Llen y Deml.

Maent hefyd i'w gweld ar safle we 'beibl.net' yn yr adran Adnoddau.

3. Y Noson Gynt

Noson cyn y croeshoeliad cafodd Iesu swper gyda'i ddisgyblion cyn mynd allan i ardd Gethsemane i weddio. Yno, cafodd ei arestio, ar ôl bradychiad Jwdas, a'i gymryd i dw'r archoffeiriad. Mae'r syniad yma'n rhoi cyfle i chi feddwl ymhellach am ddigwyddiadau'r noson honno gyda'r plant, i dreulio amser yn ystyried teimladau ac ymddygiad rhai o gymeriadau canolog hanes y Pasg cyn ceisio eu cyflwyno mewn modd dramatig.

Cewch ddewis un o'r golygfeydd ar gyfer y grup cyfan, neu dreulio amser yn ystyried mwy nag un olygfa, ond bydd angen cymorth oedolion eraill i arwain pob grup bach. Byddai'n dda cael copïau o Feibl Lliw y Plant i bob grup hefyd.

Cofiwch adael digon o amser cyn gorffen er mwyn i bawb wneud eu cyflwyniadau.

Hanes y Swper olaf (Luc 22:7-38)

Cwestiynau i'w trafod: Pa baratoadau a wnaed a chan bwy? Pam fod yr Iddewon yn dathlu Guyl y Pasg? Beth oedd y gwin a'r bara i fod atgoffa'r disgyblion ohonynt? Beth oedd achos y ffræ rhwng y disgyblion? Beth oedd ymateb Iesu? Beth oedd y sgwrs rhwng Iesu a Pedr? Pa broffwydoliaeth oedd ar fin cael ei gyflawni?

Ar ôl sicrhau fod y plant wedi deall yr hanes gadewch iddynt dreulio amser yn llunio sgrïpt ac i feddwl am sut i bortreadu'r cymeriadau. Efallai yr hoffech gael un o'r plant i ddarllen yr adnodau o beibl.net gyda'r lleill yn meimio, neu, gall y plant ysgrifennu/meddwl am ddeialog addas hefyd.



6 - 11 oed

Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

DRAMA

Iesu'n gweddïo yng Ngardd Gethsemane (Mynydd yr Olewydd) (Luc 22:39-46)

Mae hon yn olygfa fer gyda llai o gymeriadau. Cwestiynau i'w trafod: beth ddywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion ar ôl cyrraedd yr ardd a beth oedd yn ei olygu? Gyda phwy oedd Iesu'n siarad? Beth ofynnodd Iesu i'w dad? Pwy roddodd cymorth i Iesu? Sut oedd Iesu'n gweddïo? Beth oedd y disgyblion yn ei wneud?

Iesu'n cael ei arestio (Luc 22:47-53)

Dyma olygfa a fydd yn apelio at y bechgyn! Cwestiynau i'w trafod: pwy oedd yn arwain y dyrfa a ddaeth i'r ardd gyda'r milwyr? Sut oedd y milwyr yn gwybod pa un oedd Iesu? Beth ddigwyddodd i was yr arch offeiriad? Pwy ddaeth i nôl Iesu? Beth ddywedodd Iesu wrthynt?

Pedr yn gwadu (Luc 22:54-62)

Cwestiynau i'w trafod: i ble aethon nhw â Iesu? Pwy oedd yn eu dilyn? Beth wnaeth Pedr ar ôl cyrraedd y tw? Beth ddigwyddodd wrth i Pedr eistedd wrth y tân? Pwy edrychodd ar Pedr wrth i'r ceiliog ganu? Beth wnaeth Pedr wedyn?

AMSERLEN

Wythnos 1: Cyflwyno'r thema 1 neu 2; Stori 1; Crefft/Drama;


Wythnos 2: Cyflwyno'r Thema 3; Stori 2; Crefft/Drama;

Wythnos 3: Cyflwyno'r Thema 4; Stori 3; Crefft/Drama.



Taflen 4 Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

Defnyddia'r lluniau i greu symudlyn Pasg.




- ❖ Lliwia'r wyau a'r gair 'Hosanna' yn ofalus.
- ❖ Torra bopeth allan a'u gludo ar gerdyn trwchus.
- ❖ Clyma'r wyau i'r gair 'Hosanna' gyda darnau o edafedd o wahanol hyd.
- ❖ Tapia darn o edafedd ar gefn y gair 'Hosanna' er mwyn ei hongian.



Taflen 5

Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24



Dewch o hyd i'r geiriau o hanes
y pasg

Mair
angel
byw
marw
coron
croes
bedd
carreg

m w e l e g n a
a r b t y m u o
i g y d h a l p
r d w d s r f n
n b c e a w s o
m l o b p o i r
w r e r t y u o
c a g e r r a c



Taflen 6
Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

IESU



BRENIN

GWAS

Lliwia'r lluniau'n ofalus.

Ysgrifenna beth sy'n digwydd yn y llun.

Tynna ddau lun arall o hanesion cyn i Iesu gael ei groeshoelio.

Ysgrifenna beth sy'n digwydd yn y llun.



Taflen 7 Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

Mr Cadbury - gweddi cyn brecwast!




Oeddet ti'n gwybod fod cwmni Cadbury wedi cael ei sefydlu gan George Cadbury a'i deulu ger Birmingham yn Lloegr? Roedd George yn Gristion, a bob bore byddai'n bwyta brecwast gyda'i weithwyr a'u harwain mewn gweddi. Sefydlodd George sawl coleg hefyd, gan gynnwys un ar gyfer athrawon Ysgol Sul a dau ar gyfer cenhadon. Roedd George yn ofalus iawn o'i weithwyr a sefydlodd dref iddynt gael byw yn rhywle iach - tref Bournville, sy'n bodoli hyd at heddiw.

Os wyt ti'n cael llond dy fol o'r wyau Pasg, beth am drio'r rhain?

Cynhwysion: 75g o ffigedi rich tea, 50g o fricyll sych, 225g peli siocled gwyn, 4 llwy fwrdd o golden syrup, 1 llwy de o bowdr siocled poeth, 1 llwy de o siwgr eisin, papurau cacennau bach.

Dull:

Toma'r bligedi i ddarnau mân a'u rhoi mewn powlen. Ychwanega'r bricyll wedi'u torri yn ddarnau bach iawn. Rho'r peli siocled mewn powlen uwchben sosban sy'n dal tua 3cm o ddŵr berwedig i'w toddi. Does dim angen cadw'r sosban uwchben gwres stôf. Tro'r siocled nes iddo doddi. Coda'r fawlen yn ofalus iawn agadael i'r siocled oerf ychydig. Ychwanega'r surop, bligedi a'r bricyll a thro'r cyfan yn dda gyda llwy bren. Cod peth o'r gymysgedd gyda llwy de a'i rollo i siâp pêl gyda'r ddwylo a'i osod mewn cas papur. Taena ychydig o bowdr siocled poeth/siwgr eisin drostynt. Rho'r siocledi ar blât yn yr oergell am awr i oer. Cofia fwyta'r siocledi o fewn 3 diwrnod.



Ysgrifenna weddi'n diolch i Iesu am farw yn ein lle ac atgyfodi.



Roedd y Meseia wedi dioddef trwy farw dros bechodau un waith ac am byth, er mwyn dod â chi at Dduw. 1 Pedr 3:18.



Wythnos 1

Yn y sesiwn gyntaf byddwn yn cyflwyno hanes Iesu'n marchogaeth i Jerwsalem ar gefn asyn a hanes y Swper Olaf. Mae'r ddau hanes yn cyfleu dau ddarlun gwahanol o Iesu - y brenin buddugoliaethus a'r aberth a gyflwynwyd er ein mwyn. Cafodd Iesu ei gyfarch gyda llawenydd a chynnwrf ar Sul y Blodau, ond ymhen ychydig ddyddiau, mae'n siarad am ei gorff yn cael ei dorri a'i waed yn cael ei dywallt. Beth yw ystyr hyn? Sut mae Iesu'n troi o fod yn frenin i fod yn aberth? Dyma'r ddau gwestiwn y byddwn yn ceisio eu hateb gyda'r bobl ifanc - dau gwestiwn sy'n ganolog i'n dealltwriaeth o ddigwyddiadau'r Pasg.

Cyflwyno'r Thema

Gwneud 'charoset'

Mae charoset yn fwyd traddodiadol Iddewig, sy'n cael ei weini yn rhan o bryd Seder (*Passover/Pasg*).

Bydd angen 2 afal bwydadwy, hanner cwpan o gnau Ffrengig, hanner llwy de o sinamon, 2-3 llwy fwrdd o sudd grawnwin coch, 1 llwy fwrdd o fêl.

Dull: Tynnu croen a chalon y ddau afal, a'u torri'n ddarnau mawr, cyn eu gratio. Malwch y cnau yn fân. Cymysgwch bopeth yn dda.

Wrth baratoi, esboniwch wrth y grup fod gan y bwyd arwyddocâd arbennig. Mae'r 'charoset' yn cynrychioli'r mwd a'r gwellt a ddefnyddiwyd gan yr Israeliaid i greu brics i'w meistri yn yr Aifft. Wrth ei fwyta, mae Iddewon yn cofio eu bod wedi bod yn gaethweision yn yr Aifft ond bod Duw wedi eu hachub trwy Moses. Yn ffodus, nid yw'r 'charoset' yn blasu fel mwd a phridd! Cewch ddarllen yr hanes yn Exodus 5:6-7.

Eglurwch y byddai'r Iddewon yn dathlu'r Pasg yn flynyddol (nid Pasg fel rydyn ni'n ei ddathlu),

i gofio am hanes Moses yn arwain pobl Dduw o'r Aifft. Roeddent yn cymryd pryd arbennig, a oedd yn cynnwys y 'charoset', a byddai gan bob rhan o'r pryd ystyr arbennig, yn enwedig y cig oen a oedd yn atgoffa pawb o'r oen a gafodd ei aberthu. Mae Iddewon heddiw yn dathlu'r Pasg yn yr un ffordd.

Darllen a deall y Beibl (Exodus 12 a Luc 22)

Bydd angen cwpan o sudd cyrens duon, Beiblau, Atodiad 6.

1. Darllenwch Exodus 12:21-30 a thrafodwch:

Beth oedd yn rhaid i'r Iddewon ei wneud i osgoi marwolaeth?

Beth ddigwyddodd i'r Eifftiaid?

2. Gwnaeth Duw gytundeb – Cyfamod – gyda'r Israeliaid tra'r oeddent yn yr anialwch. Rhoddodd reolau iddynt eu cadw (y 10 Gorchymyn), ac addo, pe baent yn cadw'r rheolau, y byddai gyda nhw ac yn eu hamddiffyn. Cafodd y cytundeb ei selio drwy aberthu anifeiliaid ar allor arbennig. Roedd gwaed yr anifeiliaid yn golygu bod y cytundeb – y Cyfamod – yn cael ei selio.

3. Darllenwch Lud 22:14-20 a thrafodwch:

Beth yw ystyr geiriau Iesu, 'Y cwpan hwn yw'r cyfamod newydd yn fy ngwaed i, sy'n cael ei dywallt er eich mwyn chwi'?

Beth fyddai hyn wedi'i olygu i'r disgyblion a oedd yn gyfarwydd â'r syniad o aberthau anifeiliaid?

4. Dangoswch y llun o Atodiad 6.

Cafodd y Cyfamod Newydd y mae Iesu'n siarad amdano, ei selio trwy ei farwolaeth ar y groes. Cymerodd Iesu le'r aberth, yn cymryd holl bechodau'r byd arno ef ei hun a thalu dyled pechod trwy farw. Does dim rhaid i ni geisio gwneud iawn am ein pechod trwy gadw rheolau



11 - 14 oed

Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

Duw - fel roedd yr Israeliaid yn ceisio gwneud yn yr hen gyfamod. Gallwn brofi maddeuant gan Dduw am fod Iesu wedi marw yn ein lle.

Tynnwch sylw'r bobl ifanc at y ddau air ar waelod y dudalen.

GWNA – roedd yn rhaid i'r Iddewon wneud llawer o bethau er mwyn ceisio profi maddeuant Duw.

GWNAED - mae'r Cristion yn gwybod fod Iesu wedi gwneud popeth yn ei lle er mwyn iddo/i brofi maddeuant yn rhad ac am ddim gan Dduw.

Gweddïau

Bydd angen 'charoset', saws marchruddygl (horseradish), sudd cyrens duon mewn cwpanau a 'matzos'.

Gosodwch y bwyd ar y bwrdd o flaen y bobl ifanc ac esboniwch y byddwch yn defnyddio'r bwyd i'ch helpu yn eich gweddïau ac i feddwl am ystyr marwolaeth Iesu. Darllenwch y geiriau canlynol gyda'r symudiadau sydd wedi'u hitaleiddio:

Wrth inni gymryd y bara, rydym yn cofio bod corff Iesu wedi cael ei dorri oherwydd ein pechod ni. *Cymer Matzo a'i dorri, gan annog pawb i'ch dilyn.*

Wrth inni flasu'r perlaysiau chwerw, rydym yn cofio am ein pechod - y pethau rydym yn eu meddwl neu'n dweud neu'n gwneud sy'n torri cyfraith Duw a'i dristau. *Defnyddio un hanner o'r Matzo i godi'r saws marchruddygl a'i fwyta.*

Wrth inni fwyta'r 'charoset' melys, cofiwn fod Duw am ein rhyddhau o'n pechod. *Defnyddio'r hanner arall o'r Matzo i fwyta'r charoset.*

Wrth inni yfed y sudd grawnwin, cofiwn fod gwaed Iesu wedi ein hachub rhag marwolaeth. *Yfed peth o'r sudd.*

Diolch Dduw am ddanfôn Iesu i'r byd, i'n hachub trwy ei farwolaeth ar y groes. Diolch ei fod wedi

atgyfodi ac am y gobaith o fywyd y mae'n ei roi i bawb sy'n credu ynddo. Amen.

Wythnos 2

Yn y sesiwn hon byddwn yn ystyried y 'prawf' sy'n cadarnhau'r Atgyfodiad. Ar ôl gwyllo eu ffrind gorau'n cael ei arestio a'i groeshoelio, mae dilynwyr Iesu mewn sioc a dryswch. Trodd eu tristwch i lawenydd wrth i ddau angel gyhoeddi fod Iesu wedi atgyfodi; trodd eu dryswch i orfoledd wrth i Iesu ymddangos iddynt.

Cyflwyno'r Thema

Cyn i'r grup gyrraedd, gosodwch ychydig o 'brops' o gwmpas yr ystafell. Byddwch yn rhoi sialens iddynt, i ddarganfod pa mor sylwgar ydynt. Syniadau: 3 llyfr ar ben y piano; sgarff goch dros gadair; bocs casgliad ar y llawr; dau fag *Tesco* yn erbyn y wal.

Ar ôl i bawb gyrraedd, gwahoddwch y grup i edrych o gwmpas, heb esbonio beth fydd yn digwydd. Yna, rhowch ddarn o bapur a phensel i bawb a gofyn 10 cwestiwn iddynt - mae'n rhaid ateb heb edrych o gwmpas - a rhoi gwobr fechan i'r person mwyaf sylwgar!

Neu, beth am chwarae darn bach o ffilm i'r grup a holi 10 cwestiwn arsylwi iddynt?

Esboniwch ein bod yn gorfod gweld rhai digwyddiadau a sefyllfaoedd mwy nag unwaith cyn inni weld y darlun cyfan neu ddeall yn iawn beth yw ystyr y digwyddiad. Yn aml, mae'n rhaid talu sylw manwl cyn ein bod yn gweld beth sy'n bwysig.

Darllen a deall y Beibl (Luc 24)

Bydd angen Beiblau a darn mawr o bapur arnoch.

Mae'r darn yma, sy'n cyflwyno hanes yr Atgyfodiad ac ymddangosiad Iesu i'w ffrindiau, yn eithaf hir, felly, gwell ei rannu'n ddwy adran:



11 - 14 oed

Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

1. Luc 24:1-12

2. Luc 24:13-35

Darllenwch bob adran yn eu tro a gofynnwch i'r grup i benderfynu pa brawf fyddai'r cymeriadau yn y darn hwnnw o'r hanes yn gallu eu rhoi i ddangos fod Iesu'n fyw.

Ysgrifennwch yr atebion ar y papur mawr. Ar ôl pob adran, trafodwch pa ddadleuon gellid eu cynnig yn erbyn y 'prawf'.

I orffen, gofynnwch i'r bobl ifanc ystyried:

- pa ddarn o brawf ydy'r mwyaf sicr yn eu tyb hwy?

- pe baent yn dditectif yn ymchwilio achos atgyfodiad Iesu, ba brawf fyddai'n debygol o'u perswadio fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw?

- pe baent yn berson cyffredin yng nghyfnod Iesu, ba brawf fyddai'n debygol o'u perswadio fod Iesu wedi dod yn ôl yn fyw?

- a yw'r grup yn medru meddwl am unrhyw brawf arall fod Iesu wedi atgyfodi a'i fod dal yn fyw? *Gallwch rannu eich profiad personol o Iesu, yn newid eich bywyd fel Gwardwr personol.*

- a yw'r grup yn credu gydag argyhoeddiad bod Iesu'n fyw? Beth sy'n eich perswadio, neu fyddai'n gorfod digwydd i'ch perswadio?

Amser Gweddïo

Gwrandewch ar y gân 'My Jesus, My Saviour' (gellwch ei lawrlwytho o 'YouTube' ac mae'r geiriau Cymraeg i'w gweld ar safle gwe Gig; Fy Iesu, Ngwardwr)- cân sy'n sôn am bwrpas marwolaeth ac atgyfodiad Iesu, a'i defnyddio i foli Iesu.

Yna, gwrandewch ar y gân 'Open the eyes of my heart Lord' (gellwch ei lawrlwytho o 'YouTube' ac mae'r geiriau Cymraeg i'w gweld ar safle gwe

Gig; Arglwydd, agor llygaid fy nghalon). Efallai ein bod yn ei chael hi'n anodd credu fod Iesu wedi marw ac atgyfodi fel rhan o gynllun Duw i achub pechaduriaid. Mae'r gân hon yn ein hatgoffa mai Duw yw'r un sy'n rhoi ffydd i gredu. Eglurwch wrth y bobl ifanc fod Duw'n fodlon rhoi ffydd i bwy bynnag sy'n gofyn gyda chalon edifeiriol.

Gweithgaredd ychwanegol

Beth am gael gemau gydag wyau Pasg - gan atgoffa'r bobl ifanc o arwyddocâd yr wyau!!! Gweler adran 6-11 am syniadau.

Wythnos 3

Yr wythnos hon, byddwn yn ystyried hanes Iesu'n ymddangos i'w ddisgyblion yn Luc 24:36-49. I ddechrau, maen nhw'n credu mai ysbryd sydd yno - mae'n amlwg nad ydynt yn sicr a yw Iesu wedi atgyfodi ai peidio! Ond, wrth i Iesu esbonio'r Ysgrhythrau iddynt, maen nhw'n dod i ddeall ac i gredu. Ond mae pwrpas arall i ymweliad Iesu â hwy - mae'n eu comisiynu i rannu gyda phawb yr hyn maent wedi ei glywed a'i weld, ac yn addo bydd nerth o'r nef yn dod arnynt i'w galluogi i wneud hynny.

Cyflwyno'r Thema

Rhannu newyddion

Treuliwch amser yn trafod newyddion yr wythnos gyda'r grup. Os nad oes gan neb newyddion syfrdanol, byddwch yn barod i rannu rhywbeth o'ch wythnos neu o newyddion lleol/byd-eang. Trafodwch yr hyn y byddwn ni'n ei wneud os oes gennym newyddion ffantastig i'w rannu. Heddiw, byddwn yn clywed Iesu'n sôn wrth ei ddisgyblion bod ganddyn nhw newyddion anhygoel i rannu hefyd - y newyddion bod Iesu'n fyw!

Cwis Hollol ryfeddol!

Defnyddiwch y cyflwyniad PowerPoint o'r GDd i gael cwis. Rhannwch y grup yn dимоedd/parau



11 - 14 oed

Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

gyda phapur a phensel. Dylent benderfynu a yw'r ffaith sy'n cael ei gyflwyno'n wir neu'n gau. Yr atebion: - mae pob un yn wir!!!

Rhowch wobwr fechan i'r tîm/pâr buddugol. Trafodwch pa mor anhygoel yw rhai o'r ffeithiau. Efallai y bydd y grup eisiau rhannu rhai o'r ffeithiau rhyfeddol gyda ffrindiau ar y bws ysgol neu gyda'r teulu dros ginio. Tybed a wnaethon ni ystyried rhannu'r ffaith ryfeddol fod Iesu Grist wedi atgyfodi o farw'n fyw gyda rhywun yn ystod yr wythnos ddiwethaf?

Darllen a deall y Beibl (Luc 24:36-49)

Darllenwch yr adnodau gyda'ch gilydd i ddechrau.

Yna, rhannwch y grup yn ddau, gyda darn mawr o bapur a phinnau ffelt.

Gofynnwch i grup un i ddarllen drwy'r adnodau eto, gan sylwi ar yr hyn yr oedd y disgyblion yn ei wneud/ddweud/feddwl/deimlo.

Gofynnwch i'r ail grup i ail ddarllen yr adnodau gan sylwi ar yr hyn yr oedd Iesu'n ei wneud/ddweud/feddwl/deimlo.

Ar ôl tua phum munud, rhowch gyfle i'r ddau grup adrodd yn ôl.

Gwnewch y pwyntiau canlynol:

- roedd y disgyblion angen mwy o brawf mai Iesu oedd yno, roedd ganddynt amheuan.

- mae Iesu'n treulio amser yn esbonio'r Ysgrythurau iddynt. Mae ffydd yn dod trwy ddeall - dim ond Iesu sy'n rhoi y deall iawn i bobl (ar ôl i Iesu fynd yn ôl i'r nef daeth yr Ysbryd Glân, Ysbryd Iesu, i roi dealltwriaeth i bobl am bethau ysbrydol).

- mae Iesu'n dweud bod maddeuant ar gael oherwydd ei fod wedi marw ac atgyfodi.

- dyma'r neges y mae'r disgyblion i fod ei chyhoeddi.

- mae Duw wedi addo nerth iddynt i fod yn dystion, ac mae angen iddynt aros yn Jerwsalem i dderbyn y 'nerth', sef yr Ysbryd Glân.

Amser Gweddïo

Darllenwch adnodau 48 a 49 eto gyda'ch gilydd. Beth ddywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion?

Adnod 48: Roedd angen iddynt fod yn dystion i'r hyn roeddent wedi ei glywed gan Iesu ac wedi gweld yn digwydd iddo.

Adnod 49: Bod Duw yn mynd i roi nerth o'r nef iddynt - yr Ysbryd Glân.

Trafodwch gyda'r grup pa mor hawdd/anodd yw hi i rannu eu ffydd gyda ffrindiau a theulu - gan sôn wrth eraill am yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu am Iesu.


Treuliwch amser yn gweddïo dros eich gilydd ac anogwch y bobl ifanc i weddïo am gymorth yr Ysbryd Glân, nid yn unig heddiw, ond bob dydd wrth iddynt geisio byw i blesio Duw.

Gweithgaredd ychwanegol

Beth am chwilio am newyddion am waith cenhadu sy'n digwydd yn eich tref/ardal neu rywle arall yn y byd? Efallai y bydd modd trefnu ymweliad â phrosiect cenhadol, neu ysgrifennu llythyr i annog cenhadon sy'n adnabyddus i'ch ysgol Sul/capel. Anogwch y bobl ifanc i weddïo dros waith cenhadol - yn lleol neu'n fyd-eang. Mae gan *Tearfund* adran arbennig ar ei safle gwe ar gyfer pobl ifanc.





Atodiad 1
Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24





Atodiad 2
Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24







Atodiad 3
Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24



A horizontal rectangular box with rounded ends, intended for writing text related to the donkey icon.



A horizontal rectangular box with rounded ends, intended for writing text related to the cross icon.



A horizontal rectangular box with rounded ends, intended for writing text related to the empty circle icon.





Atodiad 4 Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24



Atodiad 5 Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

- Bydd angen darn o gerdyn lliw yn glawr.
- Paratowch y clawr o flaen llaw, trwy dorri'r ffenestri. Cewch wneud hyn drwy osod un copi o Atodiad 5 ar ben y clawr a mynd o amgylch y lluniau gyda beiro gan bwysu'n galed i greu tolc ysgafn ar y cerdyn ar y gwaelod. Bydd modd dilyn y llinellau i dorri pob ffenestr gyda siswrn neu gyllell crefft.
- Ar ôl lliwio, styffyllwch y clawr ar y pedwar ochr.
- Rhowch ddarn o ruban i bawb i dâpio ar gefn y 'Calendr' er mwyn ei hongian.




"Mae'r ysgrifau yn dweud fod y Meseia yn mynd i ddioddef a marw, ac yna dod yn ôl yn fyw ddeuddydd wedyn. Rhaid cyhoeddi'r neges yma yn Jerwsalem a thrwy'r gwledydd i gyd: fod pobl i droi cefn ar eu pechod a bod Duw'n barod i faddau iddyn nhw. Chi ydy'r llygad-dystion sydd wedi gweld y cwbl!



HEN

NEWYDD



Y DEG GORCHYMYN



GWAED

SEILO


MADDEUANT

G

W

N

A



GWAED

SEILO

MADDEUANT

GWNAED

Pwyntiau Trafod

- A oedd y person yn adnabod Iesu'n dda?
- Beth welodd y cymeriad?
- Beth glywodd y cymeriad?
- Pa deimladau oedd gan y cymeriad – ar ddechrau'r hanes, yng nghanol y digwyddiad, ar ddiwedd y digwyddiad?
- Beth ddywedodd y cymeriad?
- Beth wnaeth y cymeriad?



43. Iesu 'dyn ni'n canu dy glod

Greg Leavers

G

le - su 'dyn ni'n ca - nu dy glod. — le - su 'dyn ni'n ca - nu dy glod. —

4 D G G7/B C A/C#

— Dy gar - iad an - hy - goel — sy'n gwneud i ni gan - mol —

7 G/D D G G

le - su 'dyn ni'n ca - nu dy glod. — 1. le - su mae dy gar - iad di mor

10 D7

ly-dan a dw-fn a mawr. le - su mae dy gar - iad dy mor ly-dan a dw-fn a mawr. Dy

13 G G7/B C A/C#

gar - iad an - hy - goel — sy'n gwneud i ni gan - mol —

15 G/D D7 G

le - su mae dy gar - iad di mor ly - dan a dw - fn a mawr.

2. Iesu ti'n 'ngharu pan dwi'n
dda neu'n ddrwg neu'n hapus neu'n drist....
3. Iesu mae dy fariad di i bobl fel fi,
bobl fel hi a phobl fel (enw) yn flewog i gyd.

Hawffr faint Greg Leavers Cyf. Cass Meurig



Gwasanaeth Teuluol Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

Y Pasg

(Marc 11, Luc 22-24 ac Ioan 13)

Beth am addurno'r Capel efo'r Baneri i'r Brenin, Posteru Pasg – Newyddion Da ac arddangos y Gerddi Pasg!

Os yw'r plant wedi action un o'r hanesion isod yn yr Ysgol Sul beth am ofyn iddynt berfformio yn yr oedfa?

Wrth i'r oedolion a'r plant gyrraedd y gwasanaeth rhwch Atodiad 8 a phensil i bawb. Dywedwch wrthynt am chwilio am y geiriau yn y pos.

NEU / A

Rhannwch Atodiad 9 i bawb a dywedwch wrth bawb i dorri'r ddeilen balmwydd allan efo siswrn.

Croeso

Croesawch bawb i'r oedfa. Dywedodd Harold Wilson, un o gyn Brif Weinidogion Prydain, bod wythnos mewn gwleidyddiaeth yn amser hir iawn. Roedd yn cyfeirio at y ffaith bod pethau yn gallu newid yn sydyn mewn cyfnod byr. Roedd hyn yn wir am wythnos olaf Iesu Grist. Ar ddechrau'r wythnos roedd y pobl yn gweiddi "Haleliwia," ond erbyn diwedd yr wythnos roedd yr un dyrfa yn galw am ei groeshoelio!

Y mae pump rhan i'r oedfa. Cyn pob rhan gofynnwch i unigolyn gerdded o gylch y capel yn arddangos y papur priodol i'r rhan honno o'r oedfa. Bydd angen i chwi drefnu unigolion i wneud hyn ymlaen llaw. Glynwch dau ddarn o bapur A4 at ei gilydd! Byddwch angen ysgrifennu'r isod ar y papurau:

- ❖ Sul y Palmwydd
- ❖ Y Swper Olaf
- ❖ Gardd Gethsemane
- ❖ Y Croeshoelio
- ❖ Mae'n Fyw!

Gweddi

Sul y Palmwydd.

Beth am defnyddio'r lluniau o *Beibl Bach i Blant: Cyflwyniadau PowerPoint* (Cyhoeddiadau'r Gair) wrth i chwi ddarllen o **Beibl Bach i Blant** (Cyhoeddiadau'r Gair). Tudalennau 423 a 424

Ar ddiwedd y darlenniad dywedwch wrth bawb i chwifio'r ddeilen balmwydd. (Atodiad 9) yn yr awyr.

Pwyslais a chymhwysiad Sul y Palmwydd:

Pwyslais: Mae'r Brenin Iesu yn cyrraedd Jerwsalem ac yn cael croeso mawr.

Cymhwysiad: Ydym ni'n filch o Iesu Grist? Oes gennym ni feddwl y byd ohono?

Cân / Emyn



Gwasanaeth Teuluol Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

Y Swper Olaf.

Beth am defnyddio'r lluniau o *Beibl Bach i Blant: Cyflwyniadau PowerPoint* (Cyhoeddiadau'r Gair) wrth i chwi ddarllen o **Beibl Bach i Blant** (Cyhoeddiadau'r Gair). Tudalennau 428 i 432

Gofynnwch i'r gynulleidfa pam oeddent yn dathlu'r swper?

- ❖ Roeddent yn cofio am yr hyn a ddigwyddodd adeg ecsodus yr Israeliaid o'r Aifft. (Ecsodus 12)

Gofynnwch ni'r gynulleidfa beth oedd cynnwys y swper?

- ❖ Cig oen – symboleiddio'r oen a laddwyd gan pob teulu y noson cyn iddynt adael yr Aifft.
- ❖ Perlaysiau chwerw – symboleiddio chwerwder bywyd yn yr Aifft.
- ❖ Bara di furum – symboleiddio cyflymder gadael yr Aifft.
- ❖ Dwr hallt – symboleiddio'r dagrau oherwydd creulondeb yr Eifftiaid tuag at yr Israeliaid.
- ❖ Cymysgedd debyg i chutney brown – symboleiddio'r briciau a wnaed o fwd a gwellt.

Beth am deipio *lamb, bitter herbs, unleavened bread, water* a *charoset* yn Google ac yna clicio ar images. Cewch brintio neu arddangos y lluniau yn PowerPoint?

Gofynnwch i'r gynulleidfa beth oedd ystyr lladd yr oen?

- ❖ Darllenwch Ecsodus 12:1-13 ymlaen llaw i wybod yr ateb.

Gofynnwch beth a ddigwyddodd yn ystod y swper?

Sefydlodd Iesu Swper yr Arglwydd neu'r Cymun.

Beth am ddangos oen tegan a glasiad o sudd grawnwin i'r gynulleidfa?

- ❖ Mae cysylltiad rhwng lladd yr oen yn Ecsodus a marwolaeth Iesu. Dywedwch wrth y gynulleidfa am y tebygrwyd:
- ❖ Marwolaeth yr oen yn Ecsodus a marwolaeth Iesu (Oen Duw).
- ❖ Gwaed yr oen a gwaed Iesu
- ❖ Mae'r bara yn cynrychioli corff Iesu Grist a gafodd ei dorri pan aeth hoelion drwy ei ddwylo a'i draed.
- ❖ Mae'r gwin yn cynrychioli'r gwaed a ddaeth allan o'i friwiau.
- ❖ Mae Iesu am i'w ffrindiau gofio am ei farwolaeth oherwydd iddo farw yn eu lle! Iesu yw'r Oen!

Beth am ofyn i unigolyn, parti plant neu oedolion i ganu?

Gardd Gethsemane

Beth am ddefnyddio'r lluniau o *Beibl Bach i Blant: Cyflwyniadau PowerPoint* (Cyhoeddiadau'r Gair) wrth i chwi ddarllen o **Beibl Bach i Blant** (Cyhoeddiadau'r Gair). Tudalennau 433 i 435

Pwyslais a chymhwysiad Gardd Gethsemane:

Pwyslais: Roedd Jwdas Iscariot yn ymddangos fel un o ffrindiau Iesu, ond doedd o ddim!

Cymhwysiad: Rhaid i ni wylled rhag ofn ein bod yn ymddangos fel ffrindiau Iesu ond nid ydym yn mewn gwirionedd. Pwysig yw i ni holi'n hunain am ein perthynas efo Iesu.

Cân / Emyn



Gwasanaeth Teuluol Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

Y Croeshoelio.

Beth am defnyddio'r lluniau o *Beibl Bach i Blant: Cyflwyniadau PowerPoint* (Cyhoeddiadau'r Gair) wrth i chwi ddarllen o **Beibl Bach i Blant** (Cyhoeddiadau'r Gair). Tudalennau 436 i 441

DYSGU ADNOD:

Roedd y Meseia wedi dioddef trwy farw dros bechodau un waith ac am byth, er mwyn dod â chi at Dduw. 1 Pedr 3:18.

Dysgwch yr adnod:

Ysgrifennwch yr adnod ar ddarn mawr o bapur neu defnyddiwch PowerPoint.

Rhannwch y gynulleidfa yn ddau dîm e.e. merched a bechgyn, plant ac oedolion. Dysgwch yr adnod fel parot gan greu cystadleuaeth rhwng y timau. Gadewch i'r timau adrodd yr adnod yn eu tro. Dywedwch os y tîm yn well neu'n waeth na'r tîm blaenorol. Ar y diwedd cynhaliwch eisteddfod adrodd yr adnod. Dewiswch y gorau.

Pwyslais a chymhwysiad Y Croeshoelio:

Pwyslais:

- ❖ Does neb yn ddigon da i fod yn un o blant Duw.
- ❖ OND mae Iesu Grist yn ddigon da.
- ❖ Y mae Duw'r tad wedi cosbi Iesu'r mab oherwydd ein pechodau ni e.e. rhegi, dweud celwydd, peidio â meddwl am Dduw ac Iesu, anufudd-dod i'w ewyllys, bwlio, a llu o bethau eraill

Cymhwysiad:

- ❖ Os ydym am gael ein derbyn gan Dduw rhaid i ni:
- ❖ Ddweud sori o waelod ein calonnau am frifo Duw.
- ❖ Credu bod Iesu wedi marw ar y groes yn ein lle ni.
- ❖ Ymddiried yn Iesu i fynd a ni at Dduw.

Gweddi

Cân / Emyn

Mae'n Fyw!

Beth am ddefnyddio'r lluniau o *Beibl Bach i Blant: Cyflwyniadau PowerPoint* (Cyhoeddiadau'r Gair) wrth i chwi ddarllen o **Beibl Bach i Blant** (Cyhoeddiadau'r Gair). Tudalennau 442 a 451

Ysgrifennwch enwau'r sawl a welodd Iesu ar ôl yr atgyfodiad ar ddarnau o bapur.

- ❖ Mair Magdalen
- ❖ Mair mam Iago
- ❖ Simon Pedr
- ❖ Andreas
- ❖ Iago
- ❖ Ioan
- ❖ Philip



Gwasanaeth Teuluol Y Pasg: 'Gorffennwyd' - Luc 22-24

- ❖ Bartholomeus
- ❖ Thomas
- ❖ Mathew
- ❖ Iago mab Alffeus
- ❖ Simon y Selot
- ❖ Thadeus
- ❖ Cleopas
- ❖ Paul
- ❖ Dros 500 ar yr un pryd

Bydd angen rhoi'r enwau i'r plant, pobl ifanc ac oedolion ymlaen llaw. Dywedwch "Gwelwyd Iesu gan lu o bobl wedi ei atgyfodiad." Bydd y gwirfoddolwyr yn dod allan fesul i'r tu blaen a dal y papurau i fyny yn yr awyr.

Pwyslais a chymhwysiad Mae'n Fyw!

Pwyslais: Daeth Iesu Grist yn ôl yn gorfforol fyw wedi ei farwolaeth. Mae Duw yn datgan drwy'r digwyddiad hwn Ei fod yn fodlon ym marwolaeth Ei Fab yn ein lle.

Cymhwysiad: Mae Iesu Grist yn fyw heddiw ac yn fodlon byw yng nghalonau plant, pobl ifanc ac oedolion. Gofynnwch i'r gynulleidfa os yw Iesu yn fyw yn eu calonau hwy?

Dywedwch wrth y gwirfoddolwyr, wrth iddynt fynd yn ôl i'w seddi, i fynd at eraill gan ysgwyd llaw ac i ddweud wrth ei gilydd "Mae Iesu'n Fyw."

Cân / Emyn

Gweddi i orffen

Caneuon/emynau

Caneuon Ffydd: 408,414,416,422, 555,562,564

Tyrd i Ddathlu: 1, 7, 8, 10, 18,27

Y Cyntaf a'r Olaf: 4, 5, 12